Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

# Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys

## Ymarfer Hap-samplu y

## Panel Craffu

## Troseddau Casineb yn erbyn Merched/Troseddau Casineb ac Anghyfartaledd

## Canfyddiadau ac Adborth Aelodau'r Panel ar achosion Ieuenctid

**Rhagfyr 2024**

# Cynnwys

1.0 Trosolwg ........................................................................... 2
2.0 Cefndir, diben a methodoleg........................................................... 2
3.0 Cymeradwyaeth gan gadeirydd y panel............................................. 3
4.0 Camau a gymerwyd yn dilyn cyfarfod blaenorol y panel......................... 3
5.0 Meysydd i'w gwella a themâu sy'n codi dro ar ôl tro (achosion ieuenctid) .... 3
6.0 Ystyried achosion ieuenctid............................................................. 4
7.0 Asesiadau'r panel hyd yma .............................................................. 6
8.0 Ethnigrwydd a rhywedd.................................................................... 9
9.0 Ffocws y panel yn y dyfodol ............................................................ 10
10.0 Camau gweithredu......................................................................... 10

## 1.0 Trosolwg

Ar 11 Rhagfyr 2024, mynychodd aelodau o'r panel craffu ar ddatrysiadau y tu allan i'r llys gyfarfod i adolygu detholiad o saith achos oedolion a chwech achos ieuenctid yn ymwneud â throseddau casineb yn ymwneud â merched/troseddau casineb ac anghyfartaledd yr ymdriniwyd â hwy trwy ddatrysiad y tu allan i'r llys. Bydd yr adroddiad hwn yn canolbwyntio ar ganfyddiadau'r panel mewn perthynas â'r achosion ieuenctid. Mae'r adroddiad ar yr achosion oedolion i'w weld yma.

Cynhaliwyd y cyfarfod hwn yn rhithwir trwy gyfrwng Microsoft Teams.

## 2.0 Cefndir, diben a methodoleg

Diben y panel craffu ar ddatrysiadau y tu allan i'r llys yw asesu, craffu a rheoli yn annibynnol ansawdd y defnydd o ddatrysiad y tu allan i'r llys gan Heddlu Dyfed-Powys. Gall y panel wneud argymhellion, rhoi adborth ar achosion unigol i swyddogion, cyfathrebu canfyddiadau, hyrwyddo arfer gorau a nodi anghenion datblygu polisi neu anghenion hyfforddiant posibl i'w hystyried gan yr heddlu neu asiantaethau eraill sy'n gysylltiedig. Ni all y panel newid canlyniad gwreiddiol yr achos.

Mae aelodaeth y panel yn cynnwys partneriaid o fewn y system cyfiawnder troseddol sy'n cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, aelodau o Heddlu Dyfed-Powys, Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, y Gwasanaeth Prawf, Gwasanaeth Erlyn y Goron, y Tîm Cyfiawnder Ieuenctid a mainc o ynadon.

Gyda'i gilydd mae aelodau'r panel yn cytuno ar faes i ganolbwyntio arno ym mhob cyfarfod. Maent yn cael ffeiliau achos perthnasol bythefnos cyn pob cyfarfod, sydd wedi'u dewis ar hap gan gadeirydd y panel.  Yna, mae'r panel yn cyfarfod i drafod pob achos a, lle bo'n bosibl, yn dod i gasgliad ynghylch priodoldeb y gwarediad. Wrth benderfynu ar hyn, mae'r panel yn ystyried y meini prawf canlynol:

- Barn ac adborth y dioddefwr a'r troseddwr.
- Cydymffurfedd â pholisi'r heddlu.
- Y rhesymeg dros y penderfyniad a'r canlyniad.
- Yr effaith bosibl ar y gymuned.
- Yr amgylchiadau a difrifoldeb y drosedd.
- Opsiynau eraill posibl a allai fod wedi bod ar gael.

Mae'r panel yn trafod pob achos ac yn eu categoreiddio fel un o'r canlynol:

- Defnydd priodol sy'n gyson â pholisi.
- Defnydd priodol ond bod gan aelodau'r panel beth amheuaeth.
- Defnydd amhriodol neu anghyson â pholisi.
- Y panel yn methu â dod i gasgliad.

## 3.0 Cymeradwyaeth gan gadeirydd y panel

Gallaf __Carys Morgans_(printiwch yr enw) gadarnhau fy mod wedi darllen yr adroddiad, a'i fod yn cynrychioli'n llawn y farn a fynegwyd gan y panel yn ystod ein hymarfer hapsamplu dyddiedig 11 Rhagfyr 2024.

Llofnodwyd: 

Dyddiad: __19.03.2025____________

## 4.0 Camau a gymerwyd yn dilyn cyfarfod blaenorol y panel

O ganlyniad i waith panel craffu'r datrysiad y tu allan i'r llys, mae'r camau gweithredu canlynol wedi'u cwblhau ers y cyfarfod diwethaf:

- Gosodwyd marciwr ar Achos Ieuenctid 6 o gyfarfod panel datrysiad y tu allan i'r llys 24 Ebrill 2023 i sicrhau bod unrhyw droseddau yn y dyfodol yn cael eu dwyn i'r llys.
- Rhoddwyd canfyddiadau'r panel ac adborth gan uwch swyddogion i swyddogion lluosog.
- Mae gwelliannau wedi'u gwneud o ran derbyn adroddiadau gan y swyddfa ieuenctid.

## 5.0 Meysydd i'w gwella a themâu sy'n codi dro ar ôl tro (achosion ieuenctid)

Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella yn ystod yr adolygiad o achosion oedolion fel pryderon a oedd yn codi dro ar ôl tro a meysydd yr oedd angen gweithredu arnynt a'u gwella.

- Nododd y panel bryderon ar ôl sylwi bod cyhuddiadau a ddylid eu dwyn am droseddau a waethygwyd gan hiliaeth yn cael eu gollwng yn hytrach na chael eu nodi gan nad oedd angen unrhyw gamau pellach. Nododd y panel hefyd fod y cyhuddiadau'n cael eu gollwng o ganlyniad i'r sawl a ddrwgdybir yn gwadu'r honiad. Cytunodd y panel fod hwn yn rheswm annerbyniol dros ollwng trosedd. Awgrymodd y panel fod angen hyfforddiant pellach i addysgu swyddogion am sut i gofnodi trosedd a waethygwyd gan hiliaeth.

- Roedd nifer o achosion a adolygwyd yn cynnwys rhai sylwadau amhriodol yn y cofnod cofnodi digwyddiadau. Pwysleisiodd y panel bwysigrwydd sicrhau bod yr holl fanylion mewn unrhyw adroddiad gan yr heddlu yn broffesiynol.
- Nododd y panel yr angen i atgoffa'r holl staff o bwysigrwydd cadw at y polisi datrysiad y tu allan i'r llys a sicrhau bod yr holl fanylion perthnasol yn cael eu nodi a'u cynnwys yn yr adroddiadau.
- Mynegwyd pryderon ynghylch y dull anghyson o gyflwyno datrysiad y tu allan i'r llys ar draws Dyfed Powys. Nododd y panel eu pryderon bod Gwarediadau Cyfiawnder Adferol Ieuenctid yn cael eu cyhoeddi ar gyfer troseddau difrifol megis troseddau a waethygwyd gan hiliaeth.

Roedd y panel yn cytuno mai dysgu sefydliadol yn hytrach na dysgu unigol oedd y meysydd pryder uchod.O ganlyniad, cytunwyd ar y camau gweithredu isod.

Cam gweithredu 1:

Cylchlythyr, hyfforddiant priodol ac adborth i'w darparu i Heddlu Dyfed-Powys ar y pryderon isod:

- Bod angen awdurdodiad gan arolygydd ar gyfer troseddau a waethygwyd gan hiliaeth.
- Hyfforddiant ar sut i gofnodi a gollwng cyhuddiadau'n ymwneud â throseddau a waethygwyd gan hiliaeth yn gywir.
- Polisi a rhestr wirio datrysiad y tu allan i'r llys i'w dilyn.
- Sylwadau amhriodol yn cael eu cofnodi mewn adroddiadau.
- Cyhoeddi Gwarediad Cyfiawnder Adferol Ieuenctid
- Dull cyson o gyhoeddi datrysiad y tu allan i'r llys ar draws Dyfed Powys

## 6.0 Ystyried  achosion ieuenctid

Adolygodd aelodau'r panel chwe achos yn ymwneud â ieuenctid. O'r rhain, ym mhedwar achos rhoddwyd Gwarediad Cyfiawnder Adferol Ieuenctid, rhoddwyd un Datrysiad Cymunedol ac un Datrysiad Cymunedol Ieuenctid.

Roedd asesiadau'r aelodau fel a ganlyn:

| **Asesiad yr aelodau** | **Nifer yr achosion** |
|---|---|
| Priodol | 2 |

| | |
|---|---|
| Priodol gyda pheth amheuon | 3 |
| Amhriodol | 1 |

**Achos 1**

Cwestiynodd y panel ganlyniad yr achos hwn gan nad oedd unrhyw waith papur wedi'i ddarparu ar gyfer y Gwarediad Cyfiawnder Adferol Ieuenctid. Mynegodd y panel bryderon hefyd fod elfen trosedd casineb yr achos hwn wedi'i hanwybyddu ac nad oedd wedi'i chofnodi'n gywir yn y cofnod digwyddiadau. Penderfynodd y panel felly nad oedd y datrysiad y tu allan i'r llys a gyhoeddwyd yn briodol.

Cam gweithredu 3:

Canfyddiadau'r panel i'w darparu fel adborth i'r swyddog.

**Asesiad y panel: Amhriodol**

**Achos 2**

Yn gyffredinol, roedd y panel o'r farn bod y datrysiad y tu allan i'r llys yn briodol o dan amgylchiadau'r achos hwn gan nad oedd gan y sawl a ddrwgdybir unrhyw droseddau blaenorol a bod y tîm troseddau ieuenctid wedi cymryd camau cadarnhaol.Fodd bynnag, nododd y panel eu pryderon ynghylch faint o amser yr oedd yr ymchwiliad wedi'i gymryd ar gyfer yr achos hwn a sylwodd ar oedi sylweddol wrth atgyfeirio'r sawl a ddrwgdybir at y tîm troseddau ieuenctid. Ar y sail hon y cytunodd y panel y gellid bod wedi gwella'r ymchwiliad.

Cam gweithredu 4:

Adborth o ganfyddiadau'r panel ynghylch amseroldeb yr ymchwiliad i'w ddarparu i'r swyddogion.

**Asesiad y panel: Priodol gyda pheth amheuaeth**

**Achos 3**

Yn ystod yr adolygiad canmolodd y panel y gwaith cadarnhaol sy'n mynd rhagddo gyda'r sawl a ddrwgdybir a chyda chefnogaeth tîm INTACT. Nododd y panel hefyd fod cyfaddefiad llawn wedi'i ddarparu gan y sawl a ddrwgdybir ac ymddiheuriad wedi'i roi i'r dioddefwr. Fodd bynnag, nododd y panel rai pryderon ynghylch peidio

â chadw at y matrics difrifoldeb plant gan ei bod yn ymddangos bod elfen trosedd casineb yr achos wedi'i hanwybyddu. Cytunodd y panel fod y datrysiad y tu allan i'r llys yn briodol ond roedd ganddo amheuon ynghylch y defnydd or matrics difrifoldeb.

**Asesiad y panel: Priodol gyda pheth amheuaeth**

**Achos 4**

Nododd y panel y gwaith cadarnhaol sy'n cael ei wneud gan y Tîm Troseddau Ieuenctid i gefnogi'r sawl a ddrwgdybir. Yn gyffredinol, cytunodd y panel fod y datrysiad y tu allan i'r llys a gyhoeddwyd yn briodol o dan yr amgylchiadau.

**Asesiad y panel: Priodol**

**Achos 5**

Nododd y panel fod y dioddefwr yn gefnogol i'r canlyniad a bod ymddiheuriad wedi'i ddarparu. Nid oedd gan y panel unrhyw amheuon felly cytunwyd bod y datrysiad y tu allan i'r llys yn cael ei ddefnyddio'n briodol.

**Asesiad y panel: Priodol**


**Achos 6**

Trafododd y panel fod ymddiheuriad wedi'i roi i'r dioddefwr, ac nad oedd yn cefnogi ymchwiliad felly roedd datrysiad y tu allan i'r llys yn ganlyniad priodol. Fodd bynnag, nododd y panel anghysondebau gyda chofnodi'r drosedd a waethygwyd gan hiliaeth a amlygwyd mewn achosion blaenorol.


**Asesiad y panel: Priodol gyda pheth amheuaeth**

## 7.0 Asesiadau'r panel hyd yma

Mae'r siart isod yn dangos asesiad y panel o achosion ieuenctid o droseddau casineb yn erbyn merched/troseddau casineb ac anghyfartaledd a ystyriwyd yn y cyfarfod diweddaraf:





Ers mis Tachwedd 2013 mae'r panel wedi ystyried amrywiaeth o warediadau, fel y dangosir yn y graff isod.





O'r 296 o achosion a archwiliwyd rhwng Tachwedd 2013 a Rhagfyr 2024, aseswyd bod 63% yn briodol, 18% yn amhriodol, 15% yn briodol gydag amheuon a methodd y panel â dod i gasgliad mewn 3% o achosion.


Gellir gweld y newid yn y casgliadau y daethpwyd iddynt dros amser yn y graff isod:




Mae'r graff isod yn dangos y dadansoddiad yn ôl math o drosedd fel canran o'r achosion a ystyriwyd rhwng Tachwedd 2013 a Rhagfyr 2024.





Mae'r graff canlynol yn dangos nifer gwirioneddol yr achosion a aseswyd o fewn pob math o drosedd canlyniadol a barn y panel o ganlyniad yn eu cyfarfodydd rhwng Tachwedd 2013 a Rhagfyr 2024.




## 8.0 Ethnigrwydd a rhywedd

Mae'r siart canlynol yn dangos dadansoddiad o'r achosion a adolygwyd yn y cyfarfod hwn o ran rhywedd:




Mae'r tabl canlynol yn dangos dadansoddiad o'r achosion a adolygwyd yn y cyfarfod hwn o ran ethnigrwydd.

| Ethnigrwydd a nodwyd | Hunan-asesiad y sawl a ddrwgdybir | Asesiad y swyddog |
|---|---|---|
| Gwyn Prydeinig | 5 | 6 |
| Gwyn – Gogledd Ewrop | 0 | 0 |
| Gwyn – Gwyddelig | 0 | 0 |
| Gwyn – Sipsiwn neu Deithiwr Gwyddelig | 1 | 0 |
| Anhysbys | 0 | 0 |

Ni nodwyd unrhyw faterion cydraddoldeb o ran hil na rhywedd fel rhan o adolygiad y panel.

## 9.0 Ffocws y panel yn y dyfodol

Yn dilyn trafodaeth, penderfynodd y panel yr hoffent ganolbwyntio ar daliadau XXX yn y cyfarfod nesaf.

## 10.0 Camau gweithredu

| Dyddiad y cyfarfod | Rhif y cam gweithredu | Crynodeb | Unigolyn cyfrifol |
|---|---|---|---|
| 11 Rhagfyr 2023 | OOCR-153 | Cylchlythyr, hyfforddiant priodol ac adborth i'w darparu i Heddlu Dyfed-Powys ar y pryderon isod:<br>• Bod angen awdurdodiad gan arolygydd ar gyfer troseddau a waethygwyd gan hiliaeth.<br>• Hyfforddiant ar sut i gofnodi a gollwng cyhuddiadau'n ymwneud â throseddau a waethygwyd gan hiliaeth yn gywir.<br>• Polisi a rhestr wirio datrysiad y tu allan i'r llys i'w dilyn.<br>• Sylwadau amhriodol yn cael eu cofnodi mewn adroddiadau.<br>• Cyhoeddi Gwarediad Cyfiawnder Adferol Ieuenctid<br>• Dull cyson o gyhoeddi datrysiad y tu allan i'r llys ar draws Dyfed Powys | Prif Arolygydd Jenna Jones / Judith Jenkins a Tanya Davies |
| 11 Rhagfyr 2024 | OOCR - 155 | Canfyddiadau'r panel ar gyfer achos ieuenctid 1 i'w darparu fel adborth i'r swyddog | Prif Arolygydd Michael Llewellyn |
| 11 Rhagfyr 2024 | OOCR - 156 | Adborth o ganfyddiadau'r panel ar gyfer achos ieuenctid 2 ynghylch amseroldeb yr ymchwiliad i'w ddarparu i'r swyddogion. | Prif Arolygydd Matthew Price |